# DBS News
# Ionawr 2017

## Edrych Ymlaen
### Gan Adele Downey, Prif Weithredwr

**Ym mis Mehefin y llynedd, penodwyd Adele Downey yn Brif Weithredwr newydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae hi wedi bod gyda'r DBS ers y dechrau un, ac wedi dangos sgiliau arweinyddiaeth cryf yn y cyfnod hwnnw. Mae hi hefyd yn meddu ar brofiad helaeth o ddiogelu.**

Mae cael bod yn Brif Weithredwr y DBS, ac arwain tîm ardderchog sydd â gwaith mor bwysig i'w wneud, yn fraint o'r mwyaf. Rwy'n falch o'r hyn mae'r DBS wedi ei gyflawni yn ei flynyddoedd cyntaf ac, er bod 2016 wedi bod yn flwyddyn heriol, rydyn ni wedi cael cryn lwyddiant.

Gan weithio'n agos gyda Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan (MPS) rydyn ni wedi gwneud cyfraniad dilys i'r gwaith o leihau eu llwyth oedd wedi cronni. Mae staff y DBS wedi cynnal hyfforddiant, cyflawni rhywfaint o'r gwaith symlaf, ac wedi awgrymu ffyrdd o wella prosesau.

Mae'r gwaith parhaus o leihau llwyth yr MPS oedd wedi cronni hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar y DBS, gan i ni gyrraedd y rhan fwyaf o dargedau neu ragori arnynt. Cawson ni ganlyniadau gwych yn ein harolwg Boddhad Cwsmeriaid 2016, gyda chynnydd o 4% yn ein sgôr boddhad cwsmeriaid, a chynnydd nodedig ar draws y ddau wasanaeth. Rydyn ni'n gwybod bod gan ein cwsmeriaid a'n partneriaid ddisgwyliadau uchel o ran dychwelyd yn gyflym, gan sicrhau ansawdd uchel, gyda mwy o wasanaethau digidol.

Mae'r amserlen ar gyfer ein hateb TG newydd yn heriol, ond bydd yn ein galluogi ni i fodloni eich anghenion yn well. Mae'r tîm yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod ansawdd yr ateb mor uchel â phosib.

Rydyn ni wrthi'n paratoi ein strategaeth ar gyfer 2017 - 20. Rydyn ni'n gweithio mewn byd sy'n cyflym newid lle mae troseddau'n wahanol; mae camfanteisio'n rhywiol ar blant, seiberdroseddau ac eithafiaeth i gyd yn berthnasol i'r DBS, ac mae'n rhaid i ni fod yn barod i ymateb drwy ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym ni yn well, a gwneud penderfyniadau sydd o gymorth i ddiogelu.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda chi yn 2017.

"Mae'r gwasanaethau mae'r DBS yn eu darparu yn bwysicach heddiw nag erioed, ac rydyn ni'n llawn fwriadu sicrhau ein bod yn ychwanegu gwerth at ddiogelu fel corff cyhoeddus" Adele Downey, Prif Weithredwr

# Diweddariad ar Brosiect Release 1 (R1)
## Gan Peter Evans
## Rheolwr Rhaglen R1

Yn rhifynnau blaenorol DBS News, rydyn ni wedi rhoi gwybod i chi am ein cynlluniau i gyflwyno system TG newydd o'r enw Release 1 (R1). Bydd llawer ohonoch chi eisoes yn gwybod bod y dyddiadau gwneud y system yn fyw wedi bod yn gyfnewidiol. Rydyn ni'n gweithio'n galed i sicrhau ei bod yn darparu'r hyn sydd ei angen arnoch.

Dros y misoedd diwethaf, rydyn ni wedi bod yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid gwahardd i brofi cysylltedd y system newydd. Mae'r gwaith hwn yn parhau, ochr yn ochr â gwaith technegol arall, er mwyn ein helpu ni gyd i bontio'n rhwydd.

Rydyn ni wrthi'n cynllunio'r dyddiadau mynd yn fyw ar gyfer y system datgelu a gwahardd newydd. Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ein hafan GOV.UK.

**UN TÎM, UN PLATFFORM**
System ddigidol newydd, a fydd yn rhoi galluedd cyfateb gwell i ni ac yn arwain at amseroedd dychwelyd cynt

**BODLONI DISGWYLIADAU CWSMERIAID**
Yr amrywiaeth o sianeli digidol mae cwsmeriaid yn ei ddisgwyl gan wasanaeth cyhoeddus, gyda chyfrifon ar-lein a gwefan newydd haws ei defnyddio.

**DIOGELU**
Platfform mwy strategol o lawer, gyda galluedd dadansoddi gwell, gan helpu i gael barn fwy gwybodus yn yr amgylchedd diogelu.

# Gwelliannau Sylweddol i'r MPS
## Gan Ian Johnston
## Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Atal)

**Y llynedd, fe wnaethon ni roi'r newyddion diweddaraf i chi am yr oedi yr oedd Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan yn ei brofi wrth brosesu, gan esbonio pa fesurau oedd yn cael eu rhoi ar waith gan yr MPS a'r DBS i sicrhau bod yr amseroedd prosesu yn cael ei lleihau mor gyflym â phosib.**

Ers hynny, rydyn ni'n falch o allu dweud bod yr MPS wedi recriwtio a hyfforddi hyd at 100 o staff ychwanegol i'r Uned Ddatgelu er mwyn helpu i leihau'r gwaith achos heb ei gwblhau. O ganlyniad, mae'r MPS yn gweithio i'w lawn botensial, ac mae'r amseroedd prosesu yn gwella.

Gan edrych i'r dyfodol, mae'r MPS wedi rhoi strategaeth newydd yn ei lle i sicrhau y bydd modd iddo gynnal a datblygu'r gwelliannau hyn drwy gyfrwng tîm datgelu sydd wedi'u hyfforddi i safon uchel. Er ei bod yn bleser cyhoeddi bod cynnydd ardderchog a pharhaus yn cael ei wneud, ni fyddwn yn fodlon nes bod yr MPS wedi adfer yn llawn ac nad oes unrhyw oedi yno.

Rydyn ni'n disgwyl gweld rhagor o welliannau yn yr MPS yn ystod y misoedd nesaf, ond wedi dweud hynny, mae rhai ceisiadau sydd ar y gweill yn parhau i brofi oedi. Gofynnwn i chi fod yn amyneddgar wrth i'r MPS barhau i leihau'r nifer bach o achosion heb eu cwblhau sydd wedi bod ar y gweill am fwy na 60 diwrnod.

Hoffai'r DBS ac Uned Ddatgelu'r MPS ymddiheuro am yr oedi hyd yma, a byddwn yn parhau i gydweithio i wella amseroedd prosesu a sicrhau nad yw'r broblem hon yn digwydd eto yn y dyfodol.

# Yr Adran Addysg

## Cyngor a Gwybodaeth

**Ceisiadau lleoliadau â rhieni a mynediad at wiriadau'r rhestr gwaharddiadau ar gyfer rolau maethu.**

Mae'r Adran Addysg wedi darparu gwybodaeth am y canlynol

• ceisiadau i rieni y mae eu plant eu hunain yn cael eu dychwelyd atynt o ofal a drefnwyd gan yr awdurdod lleol neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Cyfeirir at hyn fel "lleoliadau â rhieni"

• mynediad at wiriadau rhestr gwaharddiadau ar gyfer rolau maethu. Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o hyn er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith wrth gyflwyno ceisiadau ar gyfer gwiriadau'r DBS.

**Lleoliadau â rhieni**

Mae'r Adran Addysg wedi cadarnhau nad oes cymhwysedd ar gyfer gwiriad safonol neu fanwl y DBS ar gyfer rhieni biolegol neu oedolion eraill sy'n byw yn y cartref. O dan The Care Planning, Placement and Case Review (England) Regulations 2010, sydd dan berchnogaeth yr Adran Addysg, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gael gwybodaeth am rybuddiadau ac euogfarnau heb eu disbyddu cyn dychwelyd plentyn at ei rieni.

Cyngor yr Adran Addysg yw y gall awdurdodau lleol gael y manylion sydd eu hangen arnynt drwy ddau lwybr.

1. Gallant weld manylion rhybuddiadau ac euogfarnau heb eu disbyddu drwy ofyn i'r rhiant/rhieni ac aelodau o'r cartref sy'n oedolion wneud cais am wiriad sylfaenol, a ddarperir drwy Disclosure Scotland ar hyn o bryd.

2. Mae Unedau Diogelu'r Cyhoedd Heddluoedd yn gallu rhyddhau gwybodaeth drwy gyfrwng Gwiriad Heddlu Uniongyrchol, a hynny dan drefniadau a ganiateir gan gylchlythyr 047/2003 y Swyddfa Gartref.

**Gwirio'r rhestrau gwaharddiadau ar gyfer rolau maethu**

Mae’r Adran Addysg wedi cadarnhau bod yn rhaid i unigolion fod o dan 18 oed er mwyn cael eu maethu. Nid yw’n bosib cael trefniant maethu sy’n cynnwys oedolyn, felly mae pob rôl sy’n ymwneud â maethu yn rhan o'r gweithlu plant.

Mae modd gwirio rhestr gwaharddiadau plant y DBS wrth gyflwyno ceisiadau manwl ar gyfer darpar rieni maethu, unrhyw oedolyn sy’n byw yn eu cartref, ac unigolion sydd wedi’u henwebu sy’n cyflawni swyddogaethau penodol y cytunwyd arnynt, a’r rheini’n cyfateb i ddiffiniad gweithgaredd rheoledig â phlant fel rhan o becyn maethu.

Dydy hi erioed wedi bod yn bosib gwirio rhestr gwaharddiadau oedolion y DBS ar gyfer unrhyw rôl yn y gweithlu plant.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y wybodaeth hon, anfonwch e-bost i customerservices@dbs.gsi.gov.uk.

# Diweddariad y DBS

## Canllawiau i Weithlu'r DBS

Mae'r dogfennau canllawiau i'r gweithlu wedi cael eu diweddaru ar y wefan.

Maent bellach yn cynnwys gwybodaeth am fynediad at wiriadau o’r rhestrau gwaharddiadau perthnasol.

Darllenwch y dogfennau hyn a sicrhau eich bod yn defnyddio’r fersiynau cywir wrth bennu cymhwysedd ceisiadau sy’n cael eu cyflwyno i ni.

## Rhifau Tystysgrif DBS

Rydyn ni’n cael nifer mawr o ymholiadau yn gofyn am rifau tystysgrif DBS ar ôl cyflwyno gwiriad i’r ymgeisydd.

Wrth wneud penderfyniadau ar addasrwydd, mae’n bwysig eich bod yn gweld y dystysgrif ei hun er mwyn i chi allu gwneud penderfyniad gwybodus.

Os ydych chi’n cyflogi rhywun i gyflawni gweithgaredd rheoledig, gan wybod bod yr unigolyn wedi’i wahardd rhag gweithio gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed, rydych chi’n torri’r gyfraith.

Dydy’r rhif tystysgrif ar ei ben ei hun ddim yn ddigon i gadarnhau addasrwydd ymgeisydd ar gyfer rôl. Oherwydd hynny, ni fydd y DBS yn darparu rhifau tystysgrif ar gais.

Tarwch olwg ar y casgliad cynhwysfawr o berfformiad a metrigau'r DBS, a gyhoeddir gennym yn fisol

## Canllawiau Cymhwysedd

Ym mis Awst, cyhoeddon ni adnodd cymhwysedd newydd ar GOV.UK er mwyn eich helpu chi i benderfynu ar ba rolau a gweithgareddau sy'n gymwys ar gyfer gwiriadau safonol neu fanwl y DBS.

Mae wedi bod yn llwyddiant ysgubol hyd yma, gyda dros 80,000 o ymweliadau ym mis Tachwedd.

Bydd yr adnodd yn eich helpu chi i gyflawni eich dyletswydd gyfreithiol sef sicrhau bod rôl y swydd yn gymwys am wiriad DBS.

Cyn cydlofnodi pob ffurflen gais DBS, cofiwch ddefnyddio'r adnodd a darllen ein casgliad o ganllawiau cymhwysedd.

## Ymweliadau Cymhwysedd Cyrff Cofrestredig
## Yr hanes hyd yma
### Gan Mike Blakemore
### Pennaeth Rheoli Perthynas

Yn rhifyn mis Mawrth 2016, rhoeon ni wybod i chi ein bod yn dechrau ymweld â Chyrff Cofrestredig i gynnal arolygiadau cydymffurfio yng nghyswllt y cod ymarfer; mae'r cod hwn yn berthnasol i holl Gyrff Cofrestredig y DBS, cyrff ymbarél a derbynwyr gwybodaeth gwasanaeth diweddaru.

Maes o law byddwn yn dechrau ar raglen waith a fydd yn asesu lefel gydymffurfio pob Corff Cofrestredig. Gwneir hynny drwy gyflwyno holiadur hunanasesu i chi.

Dilynir hynny gan holiadur manylach a fydd yn gofyn i chi ymhelaethu ar eich atebion ac, ar gais, darparu tystiolaeth i ddangos pa mor effeithiol yw'r prosesau hynny pan fyddant yn cadw at y cod ymarfer.

Byddwn yn defnyddio eich atebion a'r data o geisiadau a gyflwynir, ochr yn ochr ag ymweliadau arolygu, i ddod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Bydd cymorth ac arweiniad ar gael os gwelwn nad ydych yn cydymffurfio. Fodd bynnag, bydd y DBS yn cymryd camau i atal a, lle bo'n angenrheidiol, canslo Cyrff Cofrestredig sy'n methu cydymffurfio â'u rhwymedigaethau fel y nodir yn y cod ymarfer.

Mae ein gwiriadau yn canolbwyntio ar 6 phrif faes:

- manylion cofrestru
- cymhwysedd
- dilysu ID
- proses gwneud cais
- polisïau addasrwydd
- trin data

Hyd yma, mae'r arolygiadau sydd wedi canfod nad oedd Cyrff Cofrestredig yn cadw at y cod ymarfer wedi nodi'r 3 phrif faes hyn:

1. Canllawiau Gwirio ID

Doedd rhai Cyrff Cofrestredig ddim yn dilyn canllawiau gwirio ID y DBS; yn benodol, doedden nhw ddim yn cael dogfennau ID dilys digonol er mwyn dilysu manylion adnabod yr ymgeisydd.

2. Hyfforddiant ID

Roedd tystiolaeth nad oedd Cyrff Cofrestredig yn cynnig hyfforddiant ac nad oedd ganddynt brosesau yn eu lle pe bai gwiriwr ID yn amau bod ymgeisydd yn defnyddio dogfennau twyllodrus. Mae canllawiau defnyddiol ar GOV.UK er mwyn eich helpu chi i adnabod dogfennaeth dwyllodrus.

3. Gwiriadau manwl anghymwys a gwiriadau anghymwys o'r rhestrau gwaharddiadau

Nodwyd Cyrff Cofrestredig a oedd yn gwneud ceisiadau am wiriadau amhriodol o'r rhestr gwaharddiadau ar gyfer y gweithlu anghywir. Mae hyn yn drosedd, a gallai arwain at Gyrff Cofrestredig yn cael gwybodaeth nad oes ganddynt hawl gyfreithiol i'w gweld, ac at ymgeisydd yn bod yn destun ymchwiliad amhriodol am geisio cyflawni gweithgaredd y mae wedi ei wahardd rhagddo.

Cyn gofyn i berson wneud cais am wiriad y DBS, mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar y cydlofnodwr i sicrhau bod rôl y swydd yn gymwys. Gallwch chi ddefnyddio ein hadnodd a chanllawiau cymhwysedd i ddod o hyd i ba rolau neu weithgareddau a allai fod yn gymwys ar gyfer gwiriad safonol neu fanwl y DBS.

Byddwn yn cysylltu â chi eto gyda mwy o fanylion cyn bo hir, ond os hoffech chi ragor o wybodaeth yn y cyfamser, anfonwch e-bost i rbmanagement@dbs.gsi.gov.uk.

**Mae modd defnyddio gwasanaeth diweddaru'r DBS ar-lein i wirio neu ddiweddaru tystysgrif**

## Gwella Atgyfeiriadau Gwahardd

### Gan Jenny Mooney
### Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Gwahardd)

**Yn rhifynnau blaenorol DBS News, rydyn ni wedi datgan cymaint rydyn ni'n dibynnu ar atgyfeiriadau o safon uchel gan sefydliadau sydd â 'dyletswydd gyfreithiol i gyfeirio'. Mae cynnwys yr atgyfeiriad yn bwysig iawn i ni er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwahardd effeithiol ac i ategu ein gallu i atal pobl anaddas rhag cyflawni gweithgaredd rheoledig.**

Mae’n falch gennym ddweud ein bod hefyd wedi gwella ein gwefan ers cyhoeddi’r erthyglau hynny, gan ei gwneud yn haws dod o hyd i’r canllawiau a’u defnyddio. Rydyn ni wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymweliadau â’n canllawiau atgyfeiriadau gwahardd ar GOV.UK, yn ogystal â chynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau. Rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd 2016, cawson ni 4824 o atgyfeiriadau gwahardd gan gyflogwyr, cyrff rheoleiddio a darparwyr cyflogaeth eraill. Mae hyn yn gynnydd o 4% o’i gymharu â’r un cyfnod yn 2015.

Yn ogystal â chynyddu nifer yr atgyfeiriadau, rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i helpu cyflogwyr a chyrff rheoleiddio i wella safon eu hatgyfeiriadau. Mae atgyfeiriadau newydd sydd eisoes yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ar gael yn golygu nad oes angen i ni ofyn am ragor o wybodaeth. Mae hynny’n golygu bod modd i ni gwblhau’r broses ystyried achos yn gynt o lawer, gan ategu ein nodau i gael yr effaith ddiogelu fwyaf posib a darparu gwasanaeth ardderchog i gwsmeriaid.

Os nad ydych chi’n deall unrhyw ran o'r canllawiau atgyfeirio neu’r wybodaeth rydyn ni wedi gofyn i chi amdani, anfonwch e-bost i dbsdispatch@dbs.gsi.gov.uk neu ffoniwch ein llinell gymorth ar 01325 953795 er mwyn i ni allu darparu’r cymorth sydd ei angen arnoch.

Mae Tîm Canolfan yr adran Gweithrediadau (Gwahardd) yn prosesu pob atgyfeiriad gan gyflogwyr a chyrff rheoleiddio. Mae’r tîm hefyd yn rheoli pob cais am wybodaeth, ac awdurdodau lleol yw un o’n prif ddarparwyr gwybodaeth.

Yn ddiweddar fe aeth Katie Adam, Rheolwr ein Tîm Canolfan, i gyfarfod mis Tachwedd Swyddogion Dynodedig Awdurdodau Lleol Swydd Efrog a Glannau Humber er mwyn esbonio pwysigrwydd y wybodaeth sydd ganddyn nhw a’i berthnasedd i’n proses gwneud penderfyniadau.

Cafwyd cyfarfod buddiol iawn, ac roedd yn gymorth i bawb ddeall yr heriau ynghyd â’r ymrwymiad ar y cyd i ddiogelu.

Mae’r Tîm Canolfan a'r Tîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn gweithio’n agos gyda’i gilydd i helpu sefydliadau i ddeall y gofynion cyfreithiol a’r rhai sy’n ymwneud â gwybodaeth sy’n rhan o wneud atgyfeiriad gwahardd. Os oes gennych chi neu’ch sefydliad ddiddordeb mewn dod i wybod mwy am yr agwedd hon ar y DBS, anfonwch e-bost i dbspartnerships@dbs.gsi.gov.uk.

**Cofrestrwch ar gyfer hysbysiadau GOV.UK i sicrhau na fyddwch byth yn methu unrhyw ddarn o newyddion neu wybodaeth gennym ni.**

## Rhagoriaeth ym maes Gwasanaethau Cwsmeriaid

**Gan Rosemary Earp**

## Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Gwasanaethau Cwsmeriaid ac Ymchwiliadau

**Rydyn ni'n falch iawn o gyhoeddi ein bod wedi cadw ein hachrediad Rhagoriaeth ym Maes Gwasanaethau Cwsmeriaid ar ôl asesiad llwyddiannus arall.**

Ar gyfer ein hasesiad llawn cyntaf ers cael ein hachredu yn 2015, daeth cynrychiolwr o'r cwmni achredu i archwilio ein Gweithrediadau (Datgelu a Gwahardd), ein Cyfarwyddiaeth Gwybodaeth a'n Cyfarwyddiaeth Cyllid a Chefnogaeth Gorfforaethol.

Cyfeiriwyd yn benodol at ein dull rhagweithiol o Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Gwahardd a sut rydyn ni'n gweithio gyda Heddluoedd. Rhoddwyd clod hefyd i'r berthynas waith agos y mae ein tîm Rheoli Perthynas â Chyrff Cofrestredig wedi ei meithrin â'i gwsmeriaid drwy waith caled, a sut rydyn ni'n casglu ac yn defnyddio barn cwsmeriaid i sbarduno gwelliannau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer yn y busnes.

Yn ogystal â chadw ein hachrediad, mae 2 o'r 3 maen prawf yr oedden ni wedi eu bodloni'n rhannol y llynedd, bellach wedi eu bodloni'n llawn. Y meini prawf hyn oedd gwella ein canlyniad boddhad cwsmeriaid a defnyddio'r wybodaeth am yr hyn mae sefydliadau eraill yn ei wneud i wella'r gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu.

Rydyn ni hefyd wedi cadw ein sgôr cydymffurfio uwch (compliance plus) ar gyfer darparu gwybodaeth i'n cwsmeriaid, a bod y wybodaeth honno'n bodloni eu hanghenion.

Cafodd ein Cynllun Iaith Gymraeg sylw arbennig, yn ogystal â'r ddarpariaeth o wybodaeth ar ein gwefan a'r gwaith mae ein canolfan gyswllt wedi ei wneud i gefnogi cwsmeriaid sydd wedi profi oedi.

### System Rheoli Ansawdd ISO 9001:2008

**Mae ein meysydd gweithredu Gwahardd a Diogelu wedi eu hardystio'n unol ag ISO: 9001 2008, safon ryngwladol sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddangos eu gallu cyson i ddarparu cynnyrch a gwasanaethau sy'n bodloni gofynion y cwsmer a rhai rheoleiddiol.**

Yn gynharach yn y mis, cynhaliodd y Sefydliad Safonau Prydeinig asesiad goruchwylio o'n maes Datgelu. Aeth yr archwiliad i'r afael â meysydd sydd o fewn cwmpas ein hardystiad. Roedd yr adroddiad yn gadarnhaol dros ben, heb unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio nac arsylwadau a chyfleoedd o ran gwella, ac argymhellodd y Sefydliad ein bod yn cadw ein hardystiad.

Cynhelir yr asesiad o gydymffurfiaeth y maes Gwahardd â'r safon ISO 9001:2015 newydd fis Mai eleni. Mae ardystiad y maes Datgelu yn parhau tan fis Medi 2018. Mae'r gwaith o drosglwyddo i'r safon 2015 newydd, gan gynnwys ein Gwasanaethau i Gwsmeriaid, yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

## Adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd - Gwahardd

**Ym mis Medi, gofynnon ni i randdeiliaid perthnasol ddarllen ein Hasesiad newydd o'r Effaith ar Breifatrwydd ar gyfer y maes gwahardd.**

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae'r DBS yn defnyddio data o amrywiaeth o ffynonellau wrth wneud penderfyniadau. Mae'n esbonio'n glir i gwsmeriaid sut gall gwybodaeth amdanynt gael ei rhannu ag unigolion neu sefydliadau eraill.  Roedd modd i randdeiliaid ofyn cwestiynau a chynnig awgrymiadau ynghylch y ddogfen, ac rydyn ni wedi cynnwys y newidiadau neu'r eglurhadau y gofynnwyd amdanynt.

Mae rhifynnau ychwanegol o'r Asesiad i wasanaethau eraill y DBS wrthi'n cael eu hysgrifennu, a chânt hwythau eu hadolygu yn yr un modd gan randdeiliaid sy'n berthnasol i bob gwasanaeth.

## Tîm Twyll Datgelu
## Cydweithio i fynd i'r afael â thwyll
### Gan Angie Geraghty
### Pennaeth Ymchwilio i Dwyll

**Mae ein tîm twyll yn parhau i weithio'n agos gydag asiantaethau eraill i adnabod ac erlyn pobl sy'n ceisio cael gwaith gan ddefnyddio dogfennau adnabod ffug.**

Rydyn ni wedi bod o gymorth mewn nifer o erlyniadau llwyddiannus dros y misoedd diwethaf, yn bennaf mewn achosion lle defnyddiwyd pasbort ffug i gael tystysgrif DBS glir. Os llwyddir i gael tystysgrifau o'r fath, mae wedyn modd eu cyflwyno i gyflogwr, gan alluogi'r unigolyn i gael gwaith dan enw ffug, neu i guddio rhybuddiadau neu euogfarnau.

Mae'r DBS hefyd wedi bod o gymorth i'r Heddlu o ran adnabod unigolion yr amheuir eu bod yn defnyddio cyfeiriad gwahanol. Mae'r DBS ac asiantaethau eraill yn gallu adnabod dogfennau ffug. Gall eraill hefyd ofyn i ni am gymorth mewn ymchwiliadau parhaus pan fydd ffynonellau eraill wedi mynegi pryderon.

Cynghorir cyflogwyr a chyrff cofrestredig i barhau i gadw llygad am ddogfennau ffug. Os ydych chi'n amau bod unrhyw ddogfennau a gyflwynir i chi yn rhai ffug, neu fod rhywun wedi ymyrryd â thystysgrif DBS, ewch ati i wirio ymhellach.

Mae modd dod o hyd i nodweddion diogelwch tystysgrif DBS neu'r dystysgrif CRB gynt yma. Mae manylion am ailddefnyddio gwiriad DBS hefyd ar gael ar wefan GOV.UK.

## Bod yn Ddiogel wrth Chwilio am Swydd

Yn 2008, sefydlodd yr Heddlu Metropolitan SAFERjobs (Safe Advice for Employment and Recruitment), sefydliad dielw a redir ar y cyd gan y diwydiant recriwtio a chyrff gorfodi'r gyfraith. Ei fwriad yw codi ymwybyddiaeth o dwyll recriwtio a rhoi terfyn ar weithgarwch troseddol a gyflawnir gan gyflogwyr ffug. Mae SAFERjobs wedi cyhoeddi cyngor i geiswyr gwaith sy'n amau bod cais am wiriad heddlu yn un twyllodrus. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ei wefan, lle gallwch chi hefyd roi gwybod am unrhyw weithgarwch recriwtio amheus.